

# PWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2015

**YN BRESENNOL:** Mr Islwyn Humphreys (Y Samariaid) (Cadeirydd)  
Mr Wyn Thomas (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr)  
(Is-Gadeirydd)

### Yr Awdurdod Lleol

Cynghorydd Alun Mummery  
Cynghorydd Alwyn Rowlands

### Sector Gwirfoddol

Mr John R Jones (Prif Swyddog, Medrwn Môn)  
Ms Lyndsey Williams (Lleisiau Lleol/Medrwn Môn)  
Mrs Dilys Shaw (Medrwn Môn)  
Mr Islwyn Humphreys (Y Samariaid)  
Ms Eleri Lloyd Jones (Age Cymru – Gwynedd a Môn)

**WRTH LAW:** Mrs Gwen Carrington (Cyfarwyddwr Cymuned – CSYM)  
Mr J Huw Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd)  
Mr Huw Thomas (Swyddog Caffael Corfforaethol)  
Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgor)

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd Ieuan Williams

---

### 1 CADEIRYDDIAETH

Etholwyd Mr. Islwyn Humphreys, Samariaid, yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod. Diolchodd Mr. Humphreys i'w ragflaenydd y Cynghorydd Alun Mummery am ei waith caled a'i arweiniad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

### 2 IS-GADEIRYDDIAETH

Etholwyd Mr. Wyn Thomas, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn Is-gadeirydd am y flwyddyn i ddod. Dywedodd Mr. Thomas y byddai'n gweithio ar gryfhau'r berthynas rhwng Gwynedd a Môn.

### 3 DATGAN DIDDORDEB

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

#### **4 MATERION YN CODI O'R COFNODION – 16 IONAWR 2015**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2015, a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

##### **Materion yn codi:-**

Gan gyfeirio at eitem 3, sef trefniadau ymgysylltu lleol a'r gwaith a wnaed yn Ward Seiriol, rhoddodd Prif Swyddog Medrwn Môn wybod y byddai Lesley Griffiths, Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, yn ymweld â Ward Seiriol ar 5 Tachwedd 2015.

#### **5 RHAGLEN WELLA YNYS MÔN GYDA'R TRYDYDD SECTOR**

Adroddodd y Cyfarwyddwr Cymuned ar agweddau penodol o waith a wnaed oedd yn sail i'r Rhaglen Wella gyda'r Trydydd Sector, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr hyn a ganlyn :-

##### **(a) Adolygiad o'r Trydydd Sector – Adroddiad Terfynol**

Cyflwynwyd yr adroddiad terfynol drafft i'r aelodau yn y cyfarfod.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cymuned fod y Fforwm Penaethiaid wedi cefnogi'r adroddiad a'r trefniadau o fewn y Cyngor i gefnogi arferion llywodraethu a'r argymhellion oedd wedi'u cynnwys ynddo. Yn ogystal, mae swyddog wedi'i adnabod yn y gwasanaethau cyllid i oruchwylio agweddau ariannu yn y dyfodol i wella'r trefniadau rheolaethol. Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod hefyd bod angen trafod yr adroddiad gyda'r Sector lechyd, a gofynnodd am farn Medrwn Môn ar y cynnwys. Byddai'r adroddiad yn cael ei drafod gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi hynny.

Yna canolbwyntiodd y Pwyllgor ar yr hyn a ganlyn:-

##### **1. Cylch Gorchwyl y Pwyllgor**

**Cytunwyd y byddai Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Phrif Swyddog Medrwn Môn yn adolygu'r Cylch Gorchwyl yng nghyswllt nifer y cyfarfodydd oedd eu hangen am y flwyddyn i ddod; cyfyngiadau amser; argaeledd adnoddau staff.**

##### **2. Enw'r Pwyllgor**

**Penderfynwyd peidio newid yr enw i'r Pwyllgor Cyswllt Trydydd Sector fel y cynigiwyd yn yr adroddiad drafft y cyfeirir ato yn 5(a) uchod.**

##### **3. Enwebu Aelod Arweiniol**

**Penderfynwyd y byddai Arweinydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i hyn.**

## **(b) a (c) Y Compact a'r Côt Ymddygiad**

Adroddodd y Cyfarwyddwr Cymuned fod y Penaethiaid wedi cefnogi'r Compact. Byddai trefniadau yn awr yn cael eu gwneud gyda'r sector gwirfoddol i lansio'r Compact yn ffurfiol ynghyd â'r Côt Ymddygiad cysylltiedig.

Diolchodd Prif Swyddog Medrwn Môn i'r Cyfarwyddwr Cymuned am y gwaith a wnaed yn y misoedd diwethaf wrth adolygu dogfennau allweddol.

### **6 RHAGLEN ARIANNOL Y CYNGOR 2016/17**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cymuned grynodedb o'r sefyllfa gyfredol mewn perthynas â Rhaglen y Cyngor ar gyfer datblygu'r gyllideb ar gyfer 2016/17.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr yn rhannol at gyfres o gyfarfodydd adolygu oedd yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd i adolygu cyllidebau gwasanaethau a thrafod swyddogaethau statudol ac anstatudol.

Roedd gwaith pellach wedi'i gynllunio ar gyfer mis Medi, sef gweithdai gydag Aelodau i ddatblygu cynigion. Byddai ymgynghori'n digwydd ar gynigion ynglŷn â'r gyllideb o fis Tachwedd ymlaen.

### **7 TREFNIADAU CAFFAEL Y CYNGOR**

Rhoddodd y Swyddog Caffael Corfforaethol grynodedb o Bolisi Caffael newydd y Cyngor a'r newidiadau i Reolau Gweithdrefn Contract a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Mai 2015. Cyfeiriwyd yn benodol at agweddau caffael yn y Côt Ymarfer ariannu.

Rhoddodd y Swyddog Caffael Corfforaethol wybod ymhellach ei fod yn fodlon trefnu sesiwn briffio ar gyfer y sector gwirfoddol ar drefniadau caffael newydd yn o fuan mewn ymgynghoriad gyda Medrwn Môn.

### **8 LLEISIAU CYMUNEDOL - DIWEDDARIAD - MEDRWN MÔN**

Rhoddodd Ms Lyndsey Williams, Lleisiau Cymunedol/ Medrwn Môn grynodedb o'r cynnydd mewn perthynas â'r prosiect Lleisiau Cymunedol a'r gwaith a wnaed ar draws sectorau penodol mewn ardaloedd amrywiol yn Ynys Môn. Roedd Medrwn Môn yn gweithio gyda'r Cyngor Sir i wneud y defnydd mwyaf o amryw o gynigion ymgysylltu lleol a sefydlwyd i wella trefniadau lleol. Caiff adroddiad cynnydd pellach ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf.

### **9 YSTYRIED ARFER ORAU – UN PWYNT MYNEDIAD – MEDRWN MÔN**

Cyfeiriodd Prif Swyddog Medrwn Môn at ganllawiau arfer orau a baratowyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a gofynnodd i'r Cyngor ystyried y ddogfen pan fyddai'n rhoi sylw i fodelau darparu gwasanaeth yn y dyfodol a modelau trosglwyddo asedau.

## **10 DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cymuned diweddariad i'r Pwyllgor ar gynnydd mewn perthynas â gofynion penodol yn codi o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Yn arbennig, cyfeiriodd at sefydlu Bwrdd i oruchwylio'r gofynion yn lleol. Câi adroddiad pellach ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol agos.

## **11 STRATEGAETH TRYDYDD SECTOR BIPBC**

Rhoddodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Cymunedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ddiweddariad i'r Pwyllgor ar waith a wnaed i ddatblygu Strategaeth Trydydd Sector, a dderbyniodd gefnogaeth y Bwrdd ym mis Ebrill 2015. Yn sail i'r strategaeth oedd yr angen i wella trefniadau cyfathrebu a llywodraethu.

## **12 YMGYNGHORIAD "TROSGLWYDDO ASED AU CYMUNEDOL YNG NGHYMRU"**

Trafodwyd yr eitem hon dan Eitem 9 uchod.

Materion Eraill

Adroddodd y Cadeirydd na fyddai Aled Roberts (Taran) yn mynychu'r Pwyllgor hwn mwyach gan fod Taran wedi dod i ben.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol ym Medrwn Môn ar 2 Hydref 2015.

**Mr Islwyn Humphreys  
Cadeirydd**